

2022 Rhif (Cy.)

**GALLUEDD MEDDYLIOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Galluedd Meddyliol
(Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra
i Gynnal Asesiadau, Gwneud
Penderfyniadau a Chynnal
Adolygiadau Cyn-Awdurdodi)
(Cymru) 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Diwygiwyd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9) ("Deddf 2005") gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18) ("Deddf 2019") i ddarparu ar gyfer proses newydd ar gyfer awdurdodi trefniadau sy'n galluogi i ofal neu driniaeth gael ei roi neu ei rhoi i bersonau nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio i'r trefniadau, sy'n arwain at eu hamddifadu o'u rhyddid ("y trefniadau"). Yn benodol, mae Deddf 2019 yn mewnosod Atodlen newydd AA1 yn Neddf 2005 sy'n cynnwys y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi'r trefniadau hynny ("Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid"). Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn disodli'r cynllun a nodir yn Atodlen A1 i Ddeddf 2005 ("Cynllun Diogeliadau wrth Amddifadu o Ryddid").

O dan Atodlen AA1 i Ddeddf 2005, rhaid bodloni tri amod cyn y gellir awdurdodi'r trefniadau: rhaid nad oes gan y person y cynigir gwneud y trefniadau hynny mewn cysylltiad ag ef y galluedd i gydsynio i'r trefniadau, rhaid bod gan y person anhwylder meddwl a rhaid bod y trefniadau yn angenrheidiol i atal niwed i'r person ac yn gymesur mewn perthynas â'r tebygolrwydd o niwed iddo a difrifoldeb y niwed hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gofynion y mae rhaid i berson eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gynnal asesiad o ran a yw person yn berson nad yw'r galluedd ganddo i gydsynio i'r trefniadau ("asesiad galluedd"), asesiad o ran a oes gan berson anhwylder

meddwl (“asesiad meddygol”), neu asesiad bod y trefniadau yn angenrheidiol i atal niwed i’r person a’u bod yn gymesur mewn perthynas â’r tebygolrwydd o niwed i’r person a difrifoldeb y niwed hwnnw (“asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd”). Mae’r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi’r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i berson fod yn gymwys i wneud penderfyniad ar asesiad o’r fath.

Ar ôl i’r tri asesiad gael eu cwblhau, rhaid i berson nad yw’n ymwneud â gofal o ddydd i ddydd y person, na darparu unrhyw driniaeth iddo, ac nad oes ganddo gysylltiad rhagnodedig â chartref gofal, gynnal adolygiad cyn-awdurdodi. Adolygiad y mae rhaid ei gynnal er mwyn penderfynu a yw’r amodau awdurdodi wedi eu bodloni mewn cysylltiad â threfniadau arfaethedig neu a yw’n rhesymol i gorff cyfrifol ddod i gasgliad bod yr amodau awdurdodi wedi eu bodloni yw adolygiad cyn-awdurdodi. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn rhagnodi o dan ba amgylchiadau y bydd gan berson gysylltiad â chartref gofal at ddiben penderfynu a yw’r person hwnnw yn gymwys i ymgymryd ag adolygiad cyn-awdurdodi.

Mae rheoliad 3(5) yn nodi’r gofynion cymhwysra cyffredinol y mae rhaid i berson eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i ymgymryd ag asesiad galluedd, asesiad meddygol ac asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd.

Mae rheoliad 4 yn pennu amodau cymhwysra pellach y mae rhaid i berson eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gynnal asesiad galluedd. Mae rheoliad 5 yn darparu bod person yn gymwys i wneud penderfyniad ar asesiad galluedd os yw’n gymwys i gynnal asesiad galluedd.

Mae rheoliad 6 yn pennu amodau cymhwysra pellach y mae rhaid i berson eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gynnal asesiad meddygol. Mae rheoliad 7 yn darparu bod person yn gymwys i wneud penderfyniad ar asesiad meddygol os yw’n gymwys i gynnal asesiad meddygol.

Mae rheoliad 8 yn pennu amodau pellach y mae rhaid i berson eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gynnal asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd.

Mae rheoliad 9 yn darparu mai dim ond y person a gynhaliodd yr asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd a gaiff wneud penderfyniad ar yr asesiad hwnnw.

Mae rheoliad 10 yn rhagnodi o dan ba amgylchiadau y bydd gan berson gysylltiad â chartref gofal at ddibenion paragraff 24(1)(b) o Atodlen AA1 i Ddeddf 2005 (adolygiad cyn-awdurdodi). Nid yw person sydd â chysylltiad rhagnodedig â chartref gofal yn gymwys i gynnal yr adolygiad cyn-awdurdodi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2022 Rhif (Cy.)

**GALLUEDD MEDDYLIOL,
CYMRU**

Rheoliadau Galluedd Meddyliol
(Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra
i Gynnal Asesiadau, Gwneud
Penderfyniadau a Chynnal
Adolygiadau Cyn-Awdurdodi)
(Cymru) 2022

Gwnaed ***

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 21(3), (4) a (5), 22(1) a (3) a 24(1)(b) o Atodlen AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(1).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwysra i Gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn-Awdurdodi) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [] 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(1) 2005 p. 9. Mewnosodwyd Atodlen AA1 gan adran 1(4) o Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (p. 18). *Gweler* y diffiniad o "appropriate authority" ym mharagraffau 21(7)(b), 22(5)(b) a 24(6)(b) o'r Atodlen honno.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd” (“*necessary and proportionate assessment*”) yw asesiad a gynhelir yn unol â pharagraff 22(1) o Atodlen AA1;

ystyr “asesiad galluedd” (“*capacity assessment*”) yw asesiad a gynhelir yn unol â pharagraff 21(1)(a) o Atodlen AA1;

ystyr “asesiad meddygol” (“*medical assessment*”) yw asesiad a gynhelir yn unol â pharagraff 21(1)(b) o Atodlen AA1;

ystyr “Atodlen AA1” (“*Schedule AA1*”) yw Atodlen AA1 i Ddeddf 2005;

mae i “awdurdodiad”, “cartref gofal”, “corff cyfrifol Cymreig”, “trefniadau” ac “ysbyty annibynnol” yr ystyr a roddir i “authorisation”, “care home”, “Welsh responsible body”, “arrangements” ac “independent hospital” ym mharagraff 3 o Atodlen AA1;

ystyr “Deddf 2005” (“*the 2005 Act*”) yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005;

ystyr “Gorchymyn 2001” (“*the 2001 Order*”) yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(1).

RHAN 2

Cymhwysra i gynnal asesiadau

Cymhwysra – cyffredinol

3.—(1) Mae person yn gymwys i gynnal asesiad galluedd os yw’r amodau a bennir ym mharagraff (5) ac yn rheoliad 4 wedi eu bodloni.

(2) Mae person yn gymwys i gynnal asesiad meddygol os yw’r amodau a bennir ym mharagraff (5) ac yn rheoliad 6 wedi eu bodloni.

(3) Mae person yn gymwys i gynnal asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd os yw’r amodau a bennir ym mharagraff (5) a’r rheini a bennir yn rheoliad 8 wedi eu bodloni.

(4) Asesiadau mewn perthynas ag awdurdodiad gan gorff cyfrifol Cymreig yn unig yw’r asesiadau a grybwyllir ym mharagraffau (1) i (3).

(5) Yr amodau sydd i’w bodloni at ddibenion paragraffau (1) i (3) yw bod corff cyfrifol Cymreig wedi ei fodloni—

- (a) bod y person a fydd yn cynnal yr asesiad wedi ei yswirio mewn cysylltiad ag unrhyw

(1) O.S. 2002/254.

atebolrwyddau a allai godi mewn cysylltiad â chynnal yr asesiad;

- (b) bod gan y person a fydd yn cynnal yr asesiad y sgiliau a'r profiad sy'n briodol i'r asesiad sydd i'w gynnal, y mae rhaid iddynt gynnwys, ond nad ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol—

(i) gwybodaeth gymhwysol am Ddeddf 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig a ddyroddir yn unol ag adran 42 o Ddeddf 2005,

(ii) y gallu i gadw cofnodion priodol ac i ddarparu adroddiadau clir a rhesymegol yn unol â gofynion cyfreithiol ac arferion da,

(iii) y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda golwg ar nodi nodweddion a phriodoleddau person ("P") sy'n berthnasol i anghenion P, a

(iv) y gallu i weithredu'n annibynnol ar unrhyw berson sy'n ei benodi i gynnal asesiad ac ar unrhyw berson sy'n darparu gofal neu driniaeth i P;

- (c) bod gan y person a fydd yn cynnal yr asesiad y canlynol wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad ag ef—

(i) tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(1), neu

(ii) os nad yw'r diben y mae'r dystysgrif yn ofynnol ato yn un a ragnodir o dan is-adran (2) o'r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir yn unol ag adran 113A o'r Ddeddf honno(2);

- (d) o ran y person a fydd yn cynnal yr asesiad—

(i) nad yw'n berthynas i P y mae'r asesiad yn cael ei gynnal mewn cysylltiad ag ef,

(ii) nad oes ganddo fuddiant ariannol yng ngofal P, neu

(iii) nad yw'n berthynas i berson sydd â buddiant ariannol yng ngofal P.

- (6) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) ystyr "perthynas" yw—

(i) priod, cyn-briod, partner sifil neu gyn-bartner sifil;

(ii) person sy'n byw gyda pherson fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil iddo;

(1) 1997 p. 50. Mewnosodwyd adran 113B gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

(2) Mewnosodwyd adran 113A gan adran 163(2) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.

- (iii) rhiant neu blentyn;
- (iv) brawd neu chwaer;
- (v) plentyn i berson sy'n dod o fewn paragraff (i), (ii) neu (iv);
- (vi) tad-cu/taid neu fam-gu/nain neu ŵyr neu wyres;
- (vii) tad-cu/taid neu fam-gu/nain yng nghyfraith neu ŵyr neu wyres yng nghyfraith;
- (viii) ewythr neu fodryb;
- (ix) nai neu nith;
- (x) brawd yng nghyfraith neu chwaer yng nghyfraith;
- (xi) mab yng nghyfraith neu ferch yng nghyfraith;
- (xii) cefnder cyfan neu gyfnither gyfan;
- (xiii) hanner brawd neu hanner chwaer;
- (b) mae'r perthnasoedd yn is-baragraff (a)(iii) i (xi) yn cynnwys llysberthnasoedd;
- (c) mae cyfeiriadau at lysberthnasoedd a theulu yng nghyfraith yn y paragraff hwn i'w darllen yn unol ag adran 246 o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004(1);
- (d) mae "buddiant ariannol" yn cynnwys pan fo gan berson fuddiant ariannol fel partner, cyfarwyddwr, deiliad swydd arall neu gyfranddaliwr i'r cartref gofal, yr ysbyty annibynnol neu unrhyw gwmni sy'n gysylltiedig â'r gofal neu'r driniaeth a roddir i P fel rhan o'r trefniadau awdurdodedig a gynhelir neu y gofynnir am awdurdodiad gan y corff cyfrifol Cymreig amdanynt.

Cymhwystera i gynnal asesiad galluedd

4.—(1) Yr amodau sydd i'w bodloni at ddibenion rheoliad 3(1) yw'r rheini a bennir ym mharagraffau (2) a (3).

(2) Rhaid i'r person fod yn un o'r canlynol—

- (a) ymarferydd meddygol cofrestredig,
- (b) nyrs lefel gyntaf sydd wedi ei chofrestru yn Is-ran 1 o'r Rhan i'r Nyrsys o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(2),
- (c) therapydd galwedigaethol sydd wedi ei chofrestru yn Rhan 6 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001,

(1) 2004 p. 33.
 (2) O.S. 2002/253.

- (d) gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr—
 - (i) a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1);
 - (ii) a gedwir gan Waith Cymdeithasol Lloegr o dan adran 39(1) o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017(2);
 - (iii) a gynhelir gan Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban o dan adran 44(1) o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(3);
 - (iv) a gynhelir gan Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon o dan adran 3(1) o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 2001(4),
- (e) ymarferydd seicoleg sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 14 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001, neu
- (f) therapydd lleferydd ac iaith sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 12 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001.

(3) Rhaid i'r corff cyfrifol Cymreig fod wedi ei fodloni nad yw'r person wedi ei atal dros dro o'r gofrestr sy'n berthnasol i broffesiwn y person a grybwyllir ym mharagraff (2).

Cymhwysra i wneud penderfyniad ar asesiad galluedd

5. Mae person yn gymwys i wneud penderfyniad ar asesiad galluedd os yw'n gymwys i gynnal asesiad galluedd.

Cymhwysra i gynnal asesiad meddygol

6.—(1) Yr amodau sydd i'w bodloni at ddibenion rheoliad 3(2) yw'r rheini a bennir ym mharagraffau (2) a (3).

(2) Rhaid i'r person fod yn un o'r canlynol—

- (a) ymarferydd meddygol cofrestredig;
- (b) ymarferydd seicoleg sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 14 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001.

(3) Rhaid i'r corff cyfrifol Cymreig fod wedi ei fodloni nad yw'r person wedi ei atal dros dro o'r

(1) 2016 dccc 2.
 (2) 2017 p. 16.
 (3) 2001 dsa 8.
 (4) 2001 p. 3 (G.I.).

gofrestr sy'n berthnasol i broffesiwn y person a grybwyllir ym mharagraff (2).

Cymhwystra i wneud penderfyniad ar asesiad meddygol

7. Mae person yn gymwys i wneud penderfyniad ar asesiad meddygol os yw'n gymwys i gynnal asesiad meddygol.

Cymhwystra i gynnal asesiad bod trefniadau yn angenrheidiol ac yn gymesur

8.—(1) Yr amodau sydd i'w bodloni at ddibenion rheoliad 3(3) yw'r rheini a bennir ym mharagraffau (2) a (3).

(2) Rhaid i'r person fod yn un o'r canlynol—

- (a) ymarferydd meddygol cofrestredig,
- (b) nyrs lefel gyntaf sydd wedi ei chofrestru yn Is-ran 1 o'r Rhan i'r Nyrsys o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001,
- (c) therapydd galwedigaethol sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 6 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001,
- (d) gweithiwr cymdeithasol sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr—
 - (i) a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;
 - (ii) a gedwir gan Waith Cymdeithasol Lloegr o dan adran 39(1) o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017;
 - (iii) a gynhelir gan Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban o dan adran 44(1) o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001;
 - (iv) a gynhelir gan Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon o dan adran 3(1) o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 2001,
- (e) ymarferydd seicoleg sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 14 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001, neu
- (f) therapydd lleferydd ac iaith sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 12 o'r gofrestr a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001.

(3) Rhaid i'r corff cyfrifol Cymreig fod wedi ei fodloni—

- (a) nad yw'r person wedi ei atal dros dro o'r gofrestr sy'n berthnasol i broffesiwn y person a grybwyllir ym mharagraff (2);
- (b) bod gan y person y sgiliau angenrheidiol i gasglu, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth gymhleth a safbwyntiau gwahanol ac i'w pwysu a'u mesur yn briodol wrth wneud penderfyniad.

Cymhwysra i wneud penderfyniad ar asesiad bod trefniadau yn angenrheidiol ac yn gymesur

9. Nid yw person ond yn gymwys i wneud penderfyniad ar asesiad angenrheidrwydd a chymesuredd os y person hwnnw a gynhaliodd yr asesiad hwnnw.

Cysylltiad rhagnodedig â chartref gofal at ddiben adolygiad cyn-awdurdodi

10.—(1) At ddibenion paragraff 24(1)(b) o Atodlen AA1 (adolygiad cyn-awdurdodi), mae gan berson gysylltiad â chartref gofal—

- (a) os yw'r person hwnnw yn gweithio yn y cartref gofal hwnnw, neu i gwmni sy'n gysylltiedig â'r cartref gofal hwnnw, pa un ai o dan gontract cyflogaeth, o dan gontract am wasanaethau neu rywfodd arall ac eithrio o dan gontract;
- (b) os yw'r person hwnnw yn aelod o gorff llywodraethu'r cartref gofal hwnnw;
- (c) os oes gan y person hwnnw fuddiant ariannol yn y cartref gofal hwnnw.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, mae gan berson fuddiant ariannol mewn cartref gofal pan fo'r person hwnnw yn bartner, yn gyfarwyddwr, neu'n ddeiliad swydd arall i'r cartref gofal hwnnw neu gwmni sy'n gysylltiedig â'r cartref gofal hwnnw.

Enw

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad